

# Gwybodaeth am Hygyrchedd

## Parcio

Mae parcio ar gyfer CARAD tu ôl i adeiladau Theatr Timescape Rhaeadr a CARAD – unedau 1 a 2. Mae man parcio ar gyfer pobl anabl tu ôl i'r Amgueddfa, sydd â hygyrchedd gwastad i dderbynfa Timescape Rhaeadr trwy lidiart yr ardd oddi ar y maes parcio. Hefyd, mae maes parcio talu ac arddangos ar Lôn Dywyll, gyferbyn â'r Ganolfan Hamdden, sydd tua pump i ddeng munud o daith gerdded o CARAD.

## Hygyrchedd i Bobl Anabl

Mae mynedfa hygyrch i bobl anabl i dderbynfa Timescape a thrwy'r orielau, gyda lifft hygyrchedd i bobl anabl o'r llawr gwaelod i'r llawr cyntaf. Mae yno fannau pasio cul 77 – 85 centimetr.

Ar y llawr cyntaf mae dwy gadair ar gyfer ymadael sydyn rhag ofn i'r lifft gamweithio mewn sefyllfa argyfwng.

## Cyfleusterau

Yn y dderbynfa fe fydd un o wirfoddolwyr blaen y tŷ yn eich cwrdd, gydag unrhyw wybodaeth y byddwch angen. Darperir sach gefn Synhwyrdd (gweler isod) er mwyn cynorthwyo'ch ymweliad. Mae gennym doiledau ar gyfer pobl anabl ar y llawr gwaelod, ynghyd â thoiledau i ddynion a menywod. Rydym yn ymddiheuro am nad oes gennym lefydd newid i oedolion ar hyn o bryd oherwydd cyfyngderau lle, ar wahân i fwrdd newid llai.

## Sachau Cefn Synhwyrdd

Mae gennym dair sach gefn ALN/SEND ar gyfer plant, sy'n cynnwys amddiffynwyr clust, teganau ffiget, pyped draig sef tegan cefnogaeth, bwrdd gyda symbolau Widgit sy'n galluogi ysgolion a theuluoedd i gynllunio eu hymweliad.

Mae'r sachau cefn yn rhad ac am ddim, gydag ad-daliad blaendal, a gellir archebu rhain ar gyfer slot amser penodedig.

## Beth i ddisgwyl

O fewn Timescape mae gweithiau clywedol, fideos, arddangosfeydd digidol rhyngweithiol a goleuadau symudol a all brofi'n anghysurus i rai. Mae map synhwyrdd o'r amgueddfa isod er mwyn i chi allu rhagweld yr ardaloedd hynny. O fis Medi 2024, rydym yn gobeithio cynnal sesiynau tawel, gyda goleuadau llai llachar, os bydd staff ar gael. Gwiriwch ein gwefan am fanylion.



Community Arts Rhayader & District

Mae hefyd arddangosfeydd sy'n cynnwys modelau wedi'u gwisgo, anifeiliaid wedi'u stwffio, a chreaduriaid chwedlonol megis draig gopr fawr sydd ag iddo effeithiau sain.

Os bydd angen egwyl arnoch, mae digon o lefydd i eistedd o gwmpas yr amgueddfa, ac ar y llawr gwaelod, tu allan i'r ystafell weithgareddau. Mae gennym gadair olwyn sylfaenol ynghyd â 'rollator'.

Am ragor o fanylion cysylltwch â

Ffôn 01597 810 194

E-bost [all@carad.org.uk](mailto:all@carad.org.uk)